**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**18.01.2024 @7pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod gan ddymuno blwyddyn Newydd dda i bob un.

2. **YN BRESENNOL**
   Cyngh. Mel Briant
   Cyngh. Ieuan Davies
   Cynghorydd Sirol a Chymuned Ifan Lloyd Davies
   Cyngh. Gareth Wyn Edwards
   Cyngh. Alun Price Jones
   Cyngh. Angharad Jones
   Cyngh. Richard Jones
   Cyngh. Gareth Owen
   Cyngh. Elgan Williams &
   Eleri Thomas (Clerc)

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyngh.Non Jones a'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCyrH) John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   Fe wnaeth SCCH John Evans gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddigwyddiadau'n ystod y mis diwethaf:

   Ymddygiad Gwrthgymdeithasol/Aflonyddwch: 0
   Lladrad: 0
   Difrod troseddol: 0
   Ymosodiadau: 0
   Galwadau Twyll: 0

   **Amrywiol:** -Ar brynhawn 27-12-23 cafodd y gwasanaethau brys eu rhybuddio am adroddiad fod aelod o grŵp o bobl oddi ar y ffordd, oedd yn ardal coedwig Tywi, wedi ceisio croesi croesfan afon ar feic cwad ac wrth wneud hynny roedd y beic wedi'i ysgubo i ffwrdd. Nid oedd union leoliad y ddamwain yn hysbys. Cynhaliwyd ymgyrch chwilio ac achub ar raddfa eang. Diolch byth rhyw ddwy awr yn ddiweddarach roedd y person a oedd ar goll wedi ei leoli'n ddiogel ac yn iach mewn gorsaf betrol ym Meulah !!

   **Ymddygiad Ci**

   Derbyniodd y Cyngor Cymuned bryderon dwfn yn ystod cyfarfod cynt ynglŷn ag ymddygiad ymosodol ci penodol o fewn y pentref. Cytunwyd anfon llythyr at y perchnogion yn gofyn iddynt fynd i'r afael â'r pryderon hyn cyn gynted â phosibl er lles trigolion y Pentref.
   Yn yr ymateb (13.10.2023) dywedwyd bod y perchnogion yn edifar iawn am y digwyddiadau diweddar yn ymwneud â'r ci achub a'u bod yn dilyn pob cam posibl i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto.

Gofynnon nhw i elusen y ganolfan achub ym Mwlgaria fynd ag ef yn ôl a chytunwyd ar hyn cyn gynted ag yr oedd yr Heddlu wedi rhyddhau'r Achos.
**CYTUNWYD** yn ystod y cyfarfod cynt i ofyn am ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol. Disgwylir ymateb. Pendefynwyd ail-anfon y cais.

**5. DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
**Dim wedi'i ddatgan.**

**6. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 16eg o Dachwedd 2023**
**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Gareth Owen), **EILIWYD** (Y Cyngh. Angharad Jones ) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod y 16eg o Dachwedd yn gywir.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Praesept 2024-25 (rhan o Dreth y Cyngor a hawliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion ar ran y Cyngor Cymuned).**
Trafododd yr Aelodau Adroddiad y Gyllideb (ynghlwm). Digyfnewid oedd praesept y Cyngor Cymuned sef £7,212 yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, sy'n cynrychioli tâl o £23.05 y flwyddyn i'r talwr Treth Gyngor Band D (cyfartaledd).
Ar ôl grym drafodaeth, penderfynwyd cynyddu'r praesept 5% (yn is na'r gyfradd chwyddiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiwethaf) i £7,574, cynnydd o £23.05 y flwyddyn, i £24.20 y flwyddyn ar gyfer y Talwr Treth Gyngor Band D (cyfartaledd), y gellir ei gyfateb i gynnydd o £0.022 yr wythnos. (yn llai na chwyddiant)

Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf gobeithir gwneud gwelliannau o fewn Ardal Chwarae Pantyfedwen a gwaith ychwanegol i'r Gofeb Ryfel.

**7.2 Ardal Chwarae Pantyfedwen:**
Bydd rhaid derbyn grant i dalu'r gost o fatio'r ardal chwarae. Dosbarthwyd manylion Cronfa Datblygu a Chymorth Cymunedol *Cynnal y Cardi* i'w hystyried.

**7.3 Diffibriliwr : Ardal Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**
**Cyfanswm y diffibrilwyr o fewn Ffair Rhos a Bont yw 4-5 bellach**
megis:
1. Tafarn y Teifi: Ffair Rhos (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs)
2. Neuadd Pantyfedwen, Y Bont: Clare Hughes yw'r Gwarchodwr swyddogol o fewn y Gylched. Roedd Clare wedi crybwyll yn y cyfarfod cynt bod angen padiau newydd. Dylent fod ar gael dan law'r Gylched. Cyflwynodd Clare anfoneb i'r Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfod hwn mewn perthynas â phrynu'r padiau. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu â'r Gylched i ddarganfod a gawsant eu darparu, yn rhad ac am ddim.
3. Siop y Bentref, Bont. Ceredig yw'r Gwarchodwr swyddogol o fewn y Gylched.
4. Abaty Ystrad Fflur. (y Cyngor Cymuned wedi darparu'r bocs). Y Cyngh. Ifan Davies i gysylltu â'r Pwyllgor. Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr.

Roedd Pennaeth Ysgol Bont wedi cytuno i'r diffibriliwr sy'n weddill gael ei leoli ar safle'r ysgol (o bosib o fewn y maes parcio). Trefniadau'n mynd rhagddynt. Bydd angen clustnodi Gwarchodwr swyddogol ar gyfer y diffibriliwr. Cytunwyd y byddai'r Cyngh. Ieuan Davies yn cysylltu â Phennaeth yr Ysgol i symud y mater yn ei flaen.

**7.4 Llifogydd Afon Teifi yn ardal y Llew Coch:** mae angen tocio coed yn yr ardal. Y Cyngh. Richard Jones i glustnodi sylw i'r mater pan fydd lefel yr afon wedi disgyn.

**7.5 Baneri: Ffair Rhos a'r ardal gyfagos:** Y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd Davies i wneud ymholiadau.

**7.6 Roedd Pwyllgor y Neuadd a Chlwb Pêl-droed Bont** mewn partneriaeth â'r Cyngor Cymuned yn ystyried gosod ramp anabl yn ymestyn o Ystafell Gemau Neuadd Pantyfedwen i'r Parc, gan ffurfio llwybr o'r parc i'r Neuadd. Cyfarfod safle i'w drefnu.

Asesiad Risg Tân a Diogelwch yn ofynnol.

**7.7 Rheolau Sefydlog Model – Diwygiedig (fel y derbyniwyd gan Un Llais Cymru):** Rhoddwyd sylw i'r ddogfen hon ac ychwanegwyd gwybodaeth berthnasol yn ystod cyfarfod cynt. Wedi ei uwchlwytho ar wefan y Cyngor Cymuned.

**7.8 Un Llais Cymru: Pwyllgor Ardal Ceredigion:** Cofnodion drafft cyfarfod 25.10.2023. Anfonwyd ymddiheuriadau parthed cyfarfod Un Llais Cymru 18.01.2024 gan y cynhelir yr un adeg â Chyfarfod y Cyngor Cymuned. Holodd y Cyngh. Ieuan Davies tybed a fyddai'n bosibl i Gynghorydd pellach fynychu cyfarfodydd chwarter dyfodol Un Llais Cymru.

**7.9 Cinio Blynyddol y Cyngor Cymuned:** Dydd Gwener 19 Ionawr 2024 wedi'i gynnig yn y cyfarfod blaenorol ond nid oedd yn gyfleus.
Bydd y Cadeirydd y Cynghorydd Angharad Jones yn gofyn i'r Llew Coch, Bont petai Gwener 9fed Chwefror 2024 yn dderbyniol ac os felly, gofyn am y Fwydlen a'i chylchredeg.

**7.10 Draeniau dal wedi'u blocio yn ardal Dolebolion a'r Bont Werdd.** i adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**7.11 Bydd 4 coeden ym mharc Pantyfedwen** yn cael eu tocio'n ystod y dyfodol agos o dan arweniad y Cyng. Richard Jones. (12-15 modfedd).

**7.12 Heol yn arwain i Gefngaer, Ffair Rhos:** draen wedi suddo. Dŵr yn cronni. Adroddwyd bod Cyngor Sir Ceredigion wedi clustnodi sylw i'r mater.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1 Gohebiaeth gan Bruno Peek, Pasiantfeistr, D-Day 80:** Cynlluniau ar gyfer D-Day 80 - 6 Mehefin 2024, yn mynd rhagddynt ar gyflymder hynod o gyflym i gynnwys holl adrannau'r gymuned leol, megis Cynghorau Tref, Cymuned a Dinesig, Ysbytai, Cartrefi Gofal, Eglwysi, Ffermydd Elusennau, Tafarndai, Gwestai, Pibyddion, Crwyr Tref, teuluoedd unigol a llawer mwy. Ewch i wefan D-Day 80 i ddarganfod mwy: www.d-day80beacons.co.uk

**8.2 E-bost gan y gyn-Gynghorydd Cymunedol John Jones** yn diolch i'r Cyngor Cymuned am y fraint o gymryd rhan yng Ngwasanaeth Sul y Cofio 12.11.2023. Holodd tybed a fyddai'n bosibl cerfio enwau ychwanegol ar y Gofeb Ryfel. Diolch i waith ymchwil ymroddedig Lyn Ebenezer**,** daeth enwau'r 3 a laddwyd mewn damwain awyren ym Mhen -Bwlch i glawr.
Dyma nhw- Peilot :Swyddog awyr G.B. Bainbridge
Peilot Cynorthwyol :Rhingyll awyr R.G.Cosgrave
Rhingyll awyr atodol : W.Powell
Ei gais ef, Lyn a nifer eraill oedd gofyn yn garedig i gynghorwyr i gerfio eu henwau ar y gofeb.

Hefyd yn ychwanegol, roedd un enw arall ar goll ar y gofeb o'r rhyfel byd cyntaf.
Diolch eto i Lyn.
Richard David Davies,Rock House.
Bu'n byw'n y Bont hyd nes iddo ymfudo gyda'i deulu i Awstralia,ac ymuno a byddin y wlad honno.Bu farw yn Fromelles yn 1916.
Dylasai ei enw ef gael ei ychwanegu hefyd.
**Cytunwyd i gysylltu â Paul James, John Jones a Siop Dop Tregaron i ofyn a allent ddarparu dyfynbris arysgrifio enwau'r uchod ar blac i'w osod ar y Gofeb Ryfel.**

8.3 **Gohebiaeth dan law'r Cyngh. Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion(CSC) a'r Prif Weithredwr Mr Eifion Evans dyddiedig 4.01.2024 yn** datgan bod Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2024/25 i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru ar 20 Rhagfyr 2023. O ganlyniad, roedd gan CSC ddiffyg sylweddol yn y Gyllideb i fynd i'r afael ag ef a rhaid oedd gwneud penderfyniadau anodd wrth gydbwyso pa Wasanaethau oedd yn hanfodol i barhau oherwydd rhwymedigaethau statudol, pa Wasanaethau sy'n iawn i barhau a'u diogelu, pa wasanaethau oedd yn fwy priodol i dynnu'n ôl yn rhannol neu'n llawn oddi wrthynt a hefyd pa lefel oedd yn briodol wrth bennu elfen Cyngor Sir Ceredigion o Dreth y Cyngor.

Nid oedd penderfyniad gwleidyddol ffurfiol wedi'i wneud cyn belled, roedd nifer o Wasanaethau oedd yn cael eu rhedeg gan GSC ar hyn o bryd a allai fod yn flaenoriaeth yng ngolwg Cynghorau Tref a Chymuned. Efallai hoffai'r Cyngor Tref/Cymuned roi sylw iddynt er mwyn sicrhau nad oeddynt yn cael eu colli'n lleol. Wrth bennu'r Praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 gall y Cyngor Tref/ Cymuned ystyried ble mae'n briodol darparu parhad yng ngwasanaeth ee cyfleusterau cyhoeddus, glanhau strydoedd yn dymhorol a chynnal a chadw tiroedd y mannau cyhoeddus.
Nodwyd cynnwys y llythyr.

8.4 **Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned – 2024:** gofyn am benodiad hyd at ddau gynrychiolwyr i ddod i gwrdd ag Arweinydd y Cyngor Sir, y Cynghorydd Bryan Davies, a'r Prif Weithredwr, Mr Eifion Evans, i drafod materion sydd o ddiddordeb cyfredol i'r ddau gorff.

**Cynhelir y cyfarfod am 6:30pm:** Nos Fercher, 31 Ionawr, Siambr y Cyngor, Penmorfa
Byddai'r Cynghorydd Sirol a Chymuned Ifan Lloyd Davies yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar yr achlysur hwn. Cwestiynau i'w cyflwyno ymlaen llaw.

1. Yn dilyn llythyr Arweinydd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion (Cofnod cyf: 8.3) a allech gynnig cyngor ymarferol ar sut all y Cyngor Cymuned barhau â'r gwasanaethau yr ydych yn crybwyll yn y llythyr?

2. Mae ardaloedd gwledig yn debyg i ardal Cyngor Cymuned Ystrad Fflur a'r cylch wedi colli nifer o wasanaethau cyhoeddus allweddol, yn y blynyddoedd diwethaf ee y pwll nofio, Tregaron sy'n cymharu'n anffafriol ag adraloedd trefol o fewn y sir ee Aberystwyth. Pa gamau sydd ar waith i sicrhau cysondeb gwasanaethau/ cyfleusterau rhwng ardaloedd gwledig a threfol?

3. Safle Dosbarth 6 y dyfodol: a fydd y gost trafnidiaeth yn rhad ac am ddim a hynny'n stadudol ar gyfer disgyblion a fydd yn teithio i safle y 6ed Ddosbarth?

**8.5 Gohebieth Pellach:** er gwybodaeth yn unig. Roedd llawer o negeseuon e-bost wedi eu hanfon ymlaen at Gynghorwyr rhwng cyfarfodydd, yn electronig.

**9. CYNLLUNIO**

Dim materion cynllunio.

**10. CYLLID**

**10.1 Hurio Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen ar gyfer Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned £45**
**10.2 Cyflog y Clerc Rhagfyr 2023** £238.33(gros)
**10.3 Costau'r Clerc** (gan gynnwys TAW) £36.40
**10.4 Ffurflen Pennu'r Praesept Cyngor Sir Ceredigion 2024-25:** i'w llenwi a'i dychwelyd gan hawlio £7,574 ar gyfer y Cyngor Cymuned.
**10.5 Taith Dyffryn Teifi**: yn gofyn am gymorth ariannol. Cytunwyd peidio gwneud cyfraniad oherwydd heriau cyllidebol y Cyngor Cymuned yn ystod y flwyddyn nesaf.

**11. EITEMAU AR GYFER FB: Dim.**

**12. UNRHYW FATER ARALL**

**12.1 Roedd cebl trydan yn** ddiffygiol yng nghyffiniau Tyllyn, Ffair Rhos.
**12.2 Bydd Cyfarfod y Goleuadau Nadolig** yn cael ei drefnu cyn bo hir i asesu cyflwr goleuadau'r Nadolig. Cytunwyd diolch i'r Cynghorydd Elgan Williams, y Cynghorydd Richard Jones, Catrin Williams a Ffion Jones (a oedd wedi dylunio'r Plac ar y Glas) am ddosbarthu anrhegion Nadolig a helpu Siôn Corn yn y Pentref yn ystod mis Rhagfyr 2023.
**12.3 Roedd llechi'n rhydd** ar adeilad blaenorol Swyddfa'r Post y pentref ac o bosibl yn berygl.
**12.4 Mae angen brwsio'r palmant sy'n ymestyn o'r Ysgol tuag at y Pentref.** Hefyd mae dŵr yn cronni ar faes maes parcio'r Ysgol ac yn broblem diogelwch yn ystod tywydd garw. i adrodd at sylw CSC.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.10pm.**

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Iau 15fed Chwefror 2024 am 7pm yn Llyfrgell Neuadd Pantyfedwen.**

**Arwyddwyd/Dyddiad ------------------------------------------------------------------------------------------**